**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00343/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr ynglŷn â blaenoriaethu gweithwyr allweddol nad ydynt yn gweithio o fewn y GIG ar gyfer cael y brechlyn COVID-19.

Fel gwledydd eraill y DU, mae Cymru yn blaenoriaethu brechu pobl sydd yn y perygl mwyaf o ddal y coronafeirws a datblygu salwch difrifol, yn unol ag argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi argymell y dylid cynnig y brechlyn yn y lle cyntaf i breswylwyr cartrefi gofal, staff cartrefi gofal, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, a phobl 80 oed ac yn hŷn.

https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-2-december-2020

Bydd gweithwyr sydd dros 50 oed neu sydd â chyflyrau iechyd penodol yn cael y brechlyn yn ystod y cyfnod brechu cyntaf hwn, pan ddaw eu tro, yn unol â'r drefn flaenoriaethu a argymhellir gan y Cyd-bwyllgor.

Mae cyfraniad gweithwyr allweddol yn ystod y pandemig wedi bod yn rhyfeddol ac rwy'n hynod ddiolchgar am bopeth y maent wedi'u wneud o dan amgylchiadau anodd iawn. Fodd bynnag, pe bai grwpiau o weithwyr, megis peirianwyr teleathrebu, yn cael blaenoriaeth ar gyfer brechu yn gynharach byddai'n golygu y byddai'n rhaid i grwpiau eraill sy'n fwy agored i niwed aros yn hirach.

Bydd rheini o dan 50 oed gael y brechlyn maes o law, fel rhan o'r ail gyfnod brechu. Bydd blaenoriaethu ar gyfer yr ail gam yn cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor a fydd yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys risg alwedigaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae strategaeth frechu Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar 11 Ionawr, i'w gweld drwy glicio ar y ddolen isod, ac mae'n rhoi mwy o wybodaeth am gerrig milltir Llywodraeth Cymru a sut mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-01/vaccination-strategy-for-wales_0.pdf

Bydd llwyddiant y strategaeth yn dibynnu ar y ffaith bod Cymru yn parhau i gael cyflenwadau rheolaidd a dibynadwy o'r brechlyn oddi wrth y gwneuthurwyr. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am brynu a chydgysylltu'r cyflenwadau o'r brechlynnau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services